

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO

DYDD MERCHER, 15 TACHWEDD 2023

PRESENNOL Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

B.W. Jones J.K. Howell H.B. Shepardson M. Thomas

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

W.R.A. Davies T. Davies A. Evans R.E. Evans
H.L. Davies M. Palfreman R. Sparks

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

Y Cynghorydd L.D Evans - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi
Y Cynghorydd A. Lenny - Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)

Cynghorydd H.A.L. Evans – Yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

J. Jones, Pennaeth Adfywio, Pholisi a Digidol
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol
I. Jones, Pennaeth Hamdden
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
D. Hall-Jones, Member Support Officer
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau

Chamber - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP and remotely - 10.00 - 10.55 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd B. Davies.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif(au) y Cofnod	Y Math o Fuddiant
R. Sparks	4 - Y Wybodaeth	Wedi derbyn grant o dan y

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

	Ddiweddaraf am y Gronfa Ffyniant Gyffredin	cynllun
R. Sparks	5 - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Raglen Arfor 2	Wedi derbyn grant o dan y cynllun
R. Sparks	6 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/24	Mae ganddo fusnes nofio a gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ond nid pleidleisio

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

3. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. **DIWEDDARIAD Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN**

(NODER: Gan fod y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem gan y Pwyllgor).

Yn unol â chais a wnaed yn ei Sesiwn Blaen-gynllunio ym mis Ebrill 2023, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddarau ar gynnydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) yn Sir Gaerfyrddin yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Llywodraethu a Gwneud penderfyniadau lleol
- Tîm Rheoli Rhaglen
- Gweithredu a Chyflawni
- Hawlio a Monitro Ariannol

Nododd y Pwyllgor, ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ym mis Rhagfyr 2022, fod dyraniad Sir Gaerfyrddin o £38.6m o'r gronfa wedi'i ddatgloi ac er mwyn i'r Cyngor allu bodloni'r terfynau amser tynn a osodwyd gan Lywodraeth y DU, sef 31 Mawrth 2025, roedd datblygiad y SPF yn y Sir wedi symud ymlaen yn gyflym. Hyd yn hyn, ers lansio'r cynllun ar 6 Mawrth 2023, roedd cyfanswm o £19.68m o brosiectau Angor a Strategol wedi'u cymeradwyo ynghyd â £5.5m pellach ar gyfer y Rhaglen Rhifedd Oedolion 'Lluosi' gan ddod â chyfanswm y gwariant presennol i £25.18m

Rhodddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn perthynas â chwestiwn ar broses a llywodraethu Prosiectau Unigol a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor, cadarnhawyd bod meini prawf a chanllawiau llym yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer pob grant a gymeradwywyd. O ran sicrwydd a phwysiad prosiectau'r Cyngor, roedd Partneriaeth Adfywio wedi'i sefydlu gyda rhanddeiliaid o ystod eang o

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

sefydliadau a rhoddwyd ystyriaeth i'r holl brosiectau gan y Bartneriaeth cyn i'r Cabinet eu cymeradwyo.

O ran Llywodraethu, er mai Dinas a Sir Abertawe oedd yr awdurdod arweiniol ar gyfer y SPF, roedd 4% o'r gronfa gyffredinol ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi'i ddefnyddio i sefydlu Swyddfa Rheoli Rhaglen i fonitro'r holl brosiectau a oedd wedyn yn bwydo gwybodaeth yn ôl am allbynnau yn erbyn meini prawf i'r Cabinet a Llywodraeth y DU.

- Ynglŷn â chwestiwn ar fonitro allbynnau ac effeithiau dyfarniadau grant, cadarnhawyd bod tîm monitro wedi'i sefydlu i sicrhau'r gwariant mwyaf posibl o ddyraniadau grant. Cadarnhawyd ymhellach y gellid darparu adroddiad monitro diweddar ar wariant, allbynnau a chanlyniadau prosiectau i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.
- Mewn ymateb i ymholiad ar Atodiad 2 ac absenoldeb unrhyw eglurhad ar natur y dyfarniadau grant, cadarnhawyd y byddai'r wybodaeth berthnasol yn cael ei dosbarthu i aelodau'r pwyllgor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddar ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

5. Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM RAGLEN ARFOR 2

(NODER: Gan fod y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem gan y Pwyllgor).

Yn unol â chais a wnaed yn ei Sesiwn Blaen-gynllunio ym mis Ebrill 2023, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddar ar gynnydd Rhaglen Arfor 2 yn Sir Gaerfyrddin a oedd yn rhoi cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o adfywio economi'r Sir ynghyd â chyfrannu at dwf yr Iaith Gymraeg.

Nodwyd mai amcanion strategol allweddol Arfor 2 oedd:-

- Creu cyfleoedd i bobl ifanc a theuluoedd (dan 35 oed) aros yn eu cymunedau brodorol neu ddychwelyd iddynt – gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy gymryd rhan mewn menter neu ddatblygu gyrfa.
- Creu cymunedau mentrus o fewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith – drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n ceisio cadw a chynyddu cyfoeth lleol drwy fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
- Sicrhau bod y budd mwyaf posibl yn deillio o weithgaredd drwy gydweithio – sicrhau bod arfer da a gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu a bod monitro parhaus yn digwydd i sicrhau gwelliant parhaus.
- Cryfhau hunaniaeth cymunedau drwy sicrhau nifer uchel o siaradwyr Cymraeg – trwy gefnogi defnydd ac amlygrwydd y Gymraeg, gan annog ymdeimlad o le a theyrngarwch lleol.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- O ran y dyraniad o £1.18m i Sir Gaerfyrddin i gyflawni'r Rhaglen Cymunedau Mentrus, cadarnhawyd bod pob un o'r 4 awdurdod lleol o fewn y rhaglen sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin wedi derbyn yr un dyraniad. Nodwyd hefyd y gellid cyflwyno ceisiadau am gyllid i bob un o'r 4 awdurdod.
- Mewn perthynas â monitro'r Rhaglen, tra bo Cyngor Sir Gwynedd, fel yr awdurdod arweiniol, yn gyfrifol am ei gwerthuso a'i monitro, roedd pob un o'r 4 awdurdod yn darparu adroddiadau monitro misol iddo a oedd wedyn yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Rhaglen Arfor 2, yn cynnwys arweinwyr pob awdurdod, a Llywodraeth Cymru.

Rhoddyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd, yn sgil argymhellion yn codi ar Raglen Arfor1, a oedd yn tynnu sylw at fonitro a gwerthuso fel rhan allweddol o'r rhaglen, fod Wavehill wedi'i benodi i ddatblygu fframwaith monitro i'w ddefnyddio ar draws pob un o'r ffrydiau gwaith i ddangos tystiolaeth o effaith y rhaglen.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddar ynghylch Rhaglen Arfor 2.

6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

(NODER: Gan fod y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn y cyfarfod.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2023/24 y Gwasanaethau Tai, Adfywio ac Eiddo, Lle a Chynaliadwyedd a Hamdden ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Awst 2023. Nodwyd y rhagwelid gorwariant o £36k yn y gyllideb refeniw, tanwario o £28,568k yn y gyllideb gyfalaf, a gorwariant o £81k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch diffyg o £26k yn yr incwm ar gyfer Harbwr Porth Tywyn yn cael ei briodoli i ddiffyg mewn incwm meysydd parcio, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y rhesymau dros y diffyg yn rhai amrywiol eu natur. Roedd y rheini'n cynnwys y sefyllfa bresennol gyda thenantiaid yr Harbwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr (a oedd wedi effeithio ar nifer y perchnogion cychod oedd yn defnyddio'r harbwr), cost uwchraddio'r maes parcio ynghyd ag absenoldeb gorfodaeth yn y maes parcio. Fodd bynnag, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Is-adran Priffyrdd ynghylch yr adnoddau gorfodi o fewn yr holl feysydd parcio arfordirol i wella incwm parcio.
- O ran y sefyllfa bresennol gyda Harbwr Porth Tywyn, ar ôl i'r tenantiaid fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r gweinyddwyr a rhagwelwyd y byddai adroddiad opsiynau yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y flwyddyn newydd ar sefyllfa'r Harbwr yn y dyfodol. Nodwyd hefyd fod cyfarfodydd rhanddeiliaid misol yn cael eu cynnal gydag aelodau lleol a rhanddeiliaid eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am y sefyllfa bresennol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Mewn perthynas â'r diffyg o £78k a ragwelwyd yng ngweithrediad Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn, adroddodd y Pennaeth Hamdden, er bod arbedion effeithlonrwydd a'r gwaith o ailfodelu'r Cynnig Addysg Awyr Agored wedi'u cytuno'n flaenorol, daeth yn angenrheidiol i fwrw'r rhain ymlaen blwyddyn pan ddaeth yn amlwg na fyddai'r amserlen ar gyfer cyflawni gwasanaeth wedi'i ailfodelu'n llwyr yn cael ei bodloni. Fodd bynnag, roedd y targed incwm yn dal yn y gyllideb ac roedd hynny wedi cyfrannu tuag at y gorwariant.

O ran y defnydd o'r ganolfan ei hun, er bod ysgolion yn dal i'w harchebu, roedd y cyfleusterau yn dod i ddiwedd eu hoes ac ymhen hir, ni fyddent yn ddiogel i'w defnyddio'n barhaus.

- O ran y gorwariant o £211k ar Brosiect Denu Twristiaid Pentywyn, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod hynny yn ymwneud â phenderfyniad y Cyngor i beidio â rhyddfrenio ei waith ond i'w reoli'n fewnol a'r costau cychwyn sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai'r ganolfan yn adennill costau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol ac, wedi hynny, yn gwneud elw.
- O ran y gyllideb o £219k ar gyfer Cyd-fenter Llanelli, cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol ei fod yn gytundeb rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru i ddod â safleoedd ymlaen o fewn ardal a ddiffinnir o fewn Cyd-fenter Llanelli ar gyfer datblygu economaidd ac adfywio gyda'r incwm o'u gwerthu yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith adfywio e.e. roedd cyllid presennol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiect Pentre Awel. Cadarnhawyd hefyd y gallai'r Pwyllgor gael gwybodaeth ynglŷn â'r safleoedd a glustnodwyd i'w datblygu dros y tair blynedd nesaf.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â dyfodol Amgueddfa Tunplat Cydweli, cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod swyddogion ar hyn o bryd yn edrych ar ddatblygu cynllun 10-15 mlynedd ar gyfer y safle.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf yn cael ei dderbyn.

7. SEFYDLU GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR ADDASIADAU

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 28 Medi i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y gwasanaeth addasiadau o fewn yr Is-adran Tai, Eiddo a Phrosiectau Strategol, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn tynnu sylw at aelodaeth arfaethedig y Grŵp ynghyd â'i gylch gorchwyl arfaethedig.

Nodwyd mai aelodaeth arfaethedig y Grŵp oedd:

- Y Cynghorydd D. Cundy (Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio)
- Y Cynghorydd B. Jones (Is-gadeirydd - Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio)
- Y Cynghorydd R. Sparkes
- Y Cynghorydd K. Howell
- Y Cynghorydd M. Palfreman
- Y Cynghorydd H. Shepardon

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Addasiadau.

8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:-

- Y Gronfa Ffyniant Bro
- Defnydd Canol Tref Amgen
- Cynllun Datblygu Lleol - Canllawiau Cynllunio Atodol Diwygiedig
- Cynnig Addysg Awyr Agored Amgen
- Cynllun Cymell Tenantiaid

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiadau.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 13 Rhagfyr, 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 13 Rhagfyr 2023.

10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 28 MEDI 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023, gan eu bod yn gywir.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf